COVID-19 Update: 25th March

This evening's update covers the latest on education, child care for key workers, help for those in need, Council Tax, new birth registrations, homes for the homeless, Cardiff Dogs Home, Highways and utility work update, and Together For Cardiff, the council's volunteering portal.

COVID-19: Keeping children and young people learning during school closures

Cardiff Council has established a dedicated team to support schools in providing a host of digital materials and innovative online schemes so that curriculum can continue to be delivered during school closures caused by COVID-19.

To date, online support services for teachers have been set up to include a website for teachers to access advice and support around distance learning and a google classroom and WhatsApp group for teachers to share information and resources with each other.
A team of ICT Co-ordinators have been recruited to help support all Cardiff schools in online learning via a virtual classroom and all schools have made work available online for their pupils and parents to access, largely via the hwb platform.

In addition, Cardiff e-learning service, Cardiff Commitment and the youth service are working together to provide a platform for young people to stay connected and share learning experiences during school closures.

Pre-school provision
There are number of private, independent and voluntary settings that are still operating which have spaces for pre-school children.

Key workers from health, social care or emergency services who do not have any other option for childcare, should contact Family Gateway on 03000 133 133 or contactfas@cardiff.gov.uk

Parents or carers who are utilising the provision are reminded to observe social distancing when dropping off and collecting their children.

We request that you keep a two meter distance from staff and other members of the public.

Free parking for Key Workers in council owned car parks

Key Workers will no longer have to pay to park their vehicle on-street or in Council-owned car parks under new measures released today to help in the fight against COVID-19 outbreak.

Key workers are carrying out vital jobs to ensure that society can continue to operate during the ongoing emergency.

The council-owned car parks which are free for key workers are:

- Canton car parks (Wellington Street; Leckwith Road; Severn Road; Grey Street and Harvey Street car parks)
- Havana Street car park
- The Barrage car park

- Sophia Gardens car park
- North Road car park
- Castle Mews car park
- Llandaff High Street car park
- Pontcanna Fields car park
- Llandaff Fields car park
- Heath Park car park – NHS staff only.

A helping hand for those in need

A range of help is available from shopping for food for those who cannot leave home themselves, to the provision of emergency parcels of food and other essentials for people struggling financially. A large number of volunteers responded to the Council's call for communities to come together to help each other under the scheme, Together for Cardiff. These volunteers will assist the delivery of this support to residents.

For people NOT self-isolating but unable to afford essential provisions

The city's Hubs and Libraries service is supporting the Foodbank, with the distribution of emergency parcels from four core hubs in the city - Ely and Caerau Hub, The Powerhouse in Llanederyn, St Mellons Hub or Central Library Hub. While the hubs are closed for general public access, residents can knock on the door of the Hub and staff can help by issuing a food and essentials parcel.

For people who ARE self isolating and have no family or support
Anyone in this position who needs assistance to buy provision should call the Advice line on 029 2087 1071 to be put in touch with volunteers who are able to help with shopping. This service is only for those with no-one else available to help.

For those who want to offer help
Opportunities are available on the Volunteer Cardiff website, www.volunteercardiff.co.uk
Since last week's launch of Together For Cardiff, the Council has been overwhelmed by the number of people offering their services and time to help others. The website now has details of a number of organisations looking for volunteers that anyone interested can contact directly. Many groups have been set up at a neighbourhood level allowing volunteers to be able to help people living close by.

For business who want to help

The Council is very keen to hear from any businesses who would like support the efforts to help the most vulnerable in the city, by donating food or essential items. Please call our volunteer line on 029 2087 1239 or email volunteer@cardiff.gov.uk

COVID-19: Residents urged to contact the council if they are struggling to pay their council tax

Cardiff residents struggling to pay their council tax are being urged to contact the Council via the website – www.cardiff.gov.uk - and use online forms to inform the authority of any change to their circumstances.

The UK Government has placed the country in partial 'lockdown' as it seeks to slow and halt the spread of COVID-19. This has affected work opportunities for many people, especially those who are self-employed or working on zero hour contracts, and some companies have had to make workers redundant.

Recently, Cardiff Council Leader, Cllr Huw Thomas, called on UK Government to deliver a national solution for those that are struggling to pay their council tax:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23433.html

Cllr Chris Weaver, Cabinet Member for Finance at Cardiff Council, is now asking residents who are having difficulty paying their council tax, because the outbreak has affected their work arrangements, to contact the council to see if the authority can assist in any way.

Cllr Weaver said: "We know that people are very concerned and I want them to know we will do all that we can to help. Our contact centre is currently very busy, taking a significant number of calls with a reduced workforce, so if you can, please enquire through our website. The council tax team can also be contacted directly by email via ctax@cardiff.gov.uk

"If you are on a low income, or your income has reduced, you may be entitled to a council tax reduction and residents can find out more about this on our website. Please apply online via www.cardiff.gov.uk/applybenefits. Alternatively residents can notify of us of any changes via www.cardiff.gov.uk/changebenefits."

New birth registrations

New birth registrations will be suspended from the end of today in line with UK-wide guidance from the General Register Office. This is being done to ensure new born babies are not exposed to the current risks associated with attending Registry Offices with their families.

Child Benefit applications will not be affected.

If you have an existing appointment, our Registrars will be in touch directly.

Preparing homes for homeless people

Teams of operatives, supported by LCB Construction and Mispace, are currently working hard across the city to get vacant council homes ready as soon as possible for people experiencing homelessness to move in.

While, some residents and tenants have expressed concerns about this work given the measures and restrictions that came into force earlier this week to help prevent the spread of Coronavirus, the Council wants to reassure communities that this work is essential and is supporting people in considerable need at this time.

COVID-19 UPDATE: Cardiff Dogs Home

Cardiff Dogs Home is still accepting stray dogs, however the premises are currently open for registered dog walkers only. If you chose to walk dogs for us, this will count as your daily exercise

opportunity. Time slots must be booked in advance by calling the home so that social distancing rules can be followed. You will be able to walk for a maximum one hour.

A big thank you to everyone who has registered with the Dogs Home as a foster carer, we now have enough foster carers to help us keep taking care of Cardiff's dogs during the ongoing situation with #COVID19

If you are interested in re-homing a dog permanently, please check the Dogs Home website for details of all dogs awaiting rehoming, and give the team a call. Introductions are not currently possible but they will keep your details and be in touch when introductions start again.

For more information visit: www.cardiffdogshome.co.uk

Highways and utility work update

With the exception of essential work required to Southern Way viaduct, all Council highway and resurfacing schemes have been postponed in light of the ongoing COVID-19 pandemic.

The following schemes have been postponed until future notice:

- All resurfacing work on the highways and footways
- All works carried out by Griffiths on Western Avenue, Sloper Road and improvement works in Splott and Lamby Way (coastal flooding improvements)
- All road works on Llwyn-y-pia Road
- All Wales & West schemes on Merthyr Road, Whitchurch; Rumney and Llanrumney including Newport Road.
- All works for the Plasdwr scheme carried out by Griffiths on Llantrisant Road and Heol Isaf
- Metro Bank, Ipswich Road

The following schemes are expected to be confirmed shortly:

- Work being carried out by Calibre on Heol Hir, Llanishen and Greenway Road & Rhyl Road, Rumney
- Preliminary works by Knights Brown in Central Square.

Southern Way road closure:

Southern Way, outbound, between Rover Way and the A48. A diversion will be put in place and sign posted using Newport Road and the Newport Road/Southern Way junction.

Together For Cardiff – the Cardiff Council Volunteering Portal

If members have people in their communities coming to them offering to volunteer, referring them to the Together For Cardiff volunteering portal is the best way for them to put themselves forward to help.

The address for the portal is www.volunteercardiff.co.uk.

If people come to you looking for help from volunteers, please ask them to call the Council's Advice Line on 029 2087 1071.

Diweddariad COVID-19: 25 Mawrth

Mae'r diweddariad heno yn cynnwys y diweddaraf ar addysg, gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol, Parcio am ddim i Weithwyr Allweddol mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor, help llaw i'r rhai sydd mewn angen, Treth Gyngor, paratoi cartrefi ar gyfer pobl digartref, Cartref Cŵn Caerdydd, diweddariad ar waith priffyrdd a chyfleustodau, a Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd, Porth Gwirfoddoli'r Cyngor.

COVID-19: Cadw plant a phobl ifanc yn dysgu pan fo'r ysgolion ar gau.

Mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu tîm penodol i helpu ysgolion, drwy gynnig llu o ddeunyddiau digidol a chynlluniau ar-lein arloesol, fydd yn eu galluogi i barhau i gyflwyno'r cwricwlwm yn ystod y cyfnod y bydd ysgolion ar gau yn sgil COVID-19.

Hyd yma, mae'r gwasanaethau cymorth ar-lein i athrawon sydd wedi cael eu sefydlu yn cynnwys gwefan i athrawon gael mynediad at gyngor a chefnogaeth yn ymwneud â dysgu o bell a grŵp dosbarth Google a grŵp WhatsApp lle gall athrawon rannu gwybodaeth ac adnoddau gyda'i gilydd.

Mae tîm o gydlynwyr TGCh wedi'u recriwtio i helpu i gefnogi holl ysgolion Caerdydd gyda dysgu ar-lein drwy ystafell ddosbarth rithwir ac mae pob ysgol wedi sicrhau bod gwaith ar gael ar-lein i'w disgyblion a'u rhieni ei ddefnyddio, drwy lwyfan yr hwb yn bennaf.

Yn ogystal, mae gwasanaeth e-ddysgu Caerdydd, Addewid Caerdydd a'r gwasanaeth ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu llwyfan i bobl ifanc i barhau mewn cysylltiad a rhannu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod y bydd yr ysgolion ar gau.

Darpariaeth cyn-ysgol

Mae yna nifer o leliadau preifat, annibynnol a gwirfoddol sydd yn dal i weithredu ac sydd â llefydd ar gael i blant o oed cyn-ysgol. Dylai gweithwyr allweddol o feysydd iechyd, gofal cymdeithasol neu'r gwasanaethau brys nad sydd ag unrhyw ddewis arall ar gyfer gofal plant gysylltu â Phorth y Teulu ar 03000 133 133 neu CyswlltFAS@caerdydd.gov.uk

Atgoffir rhieni neu ofalwyr sydd yn defnyddio'r ddarpariaeth i lynu wrth ymbellhau cymdeithasol wrth ollwng neu gasglu eu plant. Gofynnwn eich bod yn cadw pellter o ddwy fetr rhyngoch â'r staff ac aelodau eraill y cyhoedd.

Parcio am ddim i Weithwyr Allweddol mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor

Ni fydd angen i Weithwyr Allweddol dalu mwyach i barcio eu cerbydau ar y stryd neu ym meysydd parcio'r Cyngor dan fesurau newydd a gyhoeddwyd heddiw er mwyn helpu yn y frwydr yn erbyn haint COVID-19.

Mae gweithwyr allweddol yn cyflawni swyddi hanfodol er mwyn sicrhau bod y gymdeithas yn gallu parhau i weithredu yn yr argyfwng parhaus.

Meysydd parcio'r Cyngor sydd am ddim i weithwyr allweddol yw:

- Meysydd parcio Treganna (sef meysydd Stryd Wellington, Heol Lecwydd; Severn Road; Grey Street a Harvey Street)
- Maes Parcio Stryd Havannah
- Maes Parcio'r Morglawdd
- Maes Parcio Gerddi Sophia
- Maes Parcio Heol y Gogledd
- Maes Parcio Stablau'r Castell
- Maes Parcio Stryd Fawr Llandaf
- Maes Parcio Caeau Pontcanna
- Maes Parcio Caeau Llandaf
- Maes Parcio Parc y Mynydd Bychan – staff y GIG yn unig.

Help llaw i'r rhai sydd mewn angen

Mae amrywiaeth o gymorth ar gael, o siopa am fwyd i'r rhai na allant adael eu cartrefi eu hunain, i ddarparu parseli bwyd brys a hanfodion eraill i bobl sy'n cael trafferth ariannol. Ymatebodd nifer fawr o wirfoddolwyr i alwad y Cyngor ar i gymunedau ddod ynghyd er mwyn helpu ei gilydd o dan y cynllun, Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd. Bydd y gwirfoddolwyr yma yn helpu i ddarparu'r cymorth hwn i breswylwyr.

Ar gyfer pobl NAD sy'n ynysu eu hunain ond yn methu â fforddio nwyddau hanfodol

Mae gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd y ddinas yn cefnogi'r Banc Bwyd, gan ddosbarthu parseli brys o bedair canolfan graidd yn y ddinas - Hyb Trelái a Chaerau, y Pwerdy yn Llanedern, Hyb Llaneirwg neu Hyb y Llyfrgell Ganolog. Pan fydd yr hybiau wedi cau ar gyfer mynediad cyffredinol i'r cyhoedd, gall preswylwyr gnocio ar ddrws yr Hyb a gall y staff helpu drwy roi parsel o fwyd a hanfodion.

I bobl sydd YN hunan-ynysu ac heb deulu na chymorth ganddynt
Dylai unrhyw un yn y sefyllfa hon sydd angen cymorth i brynu nwyddau ffonio'r llinell Gynghori ar 029 2087 1071 i gael ei rhoi mewn cysylltiad â gwirfoddolwyr sy'n gallu helpu gyda siopa. Mae'r gwasanaeth hwn ond ar gael ar gyfer y rhai sydd heb neb arall ar gael i helpu.

I'r rhai sydd am gynnig help
Mae cyfleoedd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Caerdydd yn www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk
Ers lansio Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yr wythnos diwethaf, mae'r Cyngor wedi cael ei synnu gan nifer y bobl sy'n cynnig eu gwasanaethau a'u hamser i helpu eraill. Bellach, mae gan y wefan fanylion nifer o sefydliadau sy'n chwilio am wirfoddolwyr y gall unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu â nhw yn uniongyrchol. Mae llawer o grwpiau wedi'u sefydlu ar lefel cymdogaeth sy'n caniatáu i wirfoddolwyr allu helpu pobl sy'n byw gerllaw.

Ar gyfer busnesau sydd awydd helpu

Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw fusnesau a hoffai gefnogi'r ymdrechion i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn y ddinas, drwy gyfrannu bwyd neu eitemau hanfodol. Ffoniwch ein llinell wirfoddoli ar 029 2087 1239 neu e-bostiwch gwirfoddoli@caerdydd.gov.uk.

COVID-19: Annog trigolion i gysylltu â'r Cyngor os ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor

Anogir trigolion Caerdydd sy'n ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor i gysylltu â'r Cyngor drwy'r wefan - www.caerdydd.gov.uk - a defnyddio ffurflenni ar-lein i roi gwybod i'r awdurdod am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau.

Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu cyfyngiadau rhannol ar symud i geisio arafu ac atal lledaeniad COVID-19. Mae hyn wedi effeithio ar gyfleoedd gwaith nifer fawr o bobl, yn arbennig y rheiny sy'n hunan-gyflogedig neu'n gweithio ar gontractau dim oriau, ac mae rhai cwmnïau wedi gorfod diswyddo gweithwyr.

Yn ddiweddar, galwodd Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas, ar Lywodraeth y DU i gyflwyno ateb cenedlaethol ar gyfer y rheiny sy'n ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor: https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23434.html

Mae'r Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid yng Nghyngor Caerdydd, nawr yn gofyn i drigolion sy'n ei chael hi'n anodd talu eu treth gyngor, oherwydd bod achosion o Covid-19 wedi effeithio ar eu trefniadau gwaith, gysylltu â'r cyngor i weld a all yr awdurdod fod o gymorth mewn unrhyw ffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Weaver: "Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn ofidus iawn a hoffwn iddyn nhw wybod y byddwn yn gwneud popeth y gallwn ni i helpu. Mae ein canolfan gyswllt yn hynod brysur ar hyn o bryd, yn derbyn nifer sylweddol o alwadau gyda gweithlu llai, felly, os yw'n bosib i chi wneud, a fyddech cystal â gwneud ymholiadau drwy ein gwefan. Gallwch gysylltu â thîm y dreth gyngor yn uniongyrchol drwy trethgyngor@caerdydd.gov.uk

"Os ydych ar incwm isel, neu os yw eich incwm wedi gostwng, efallai y bydd gennych hawl i gael gostyngiad y dreth gyngor a gall trigolion gael gwybod mwy am hyn ar ein gwefan. Gwnewch gais ar-lein drwy https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswylydd/Budd-daliadau-a-Grantiau/Budd-dal-Tai/cais-fudd-dal-tai-neu-ostyngiad-treth-cyngor/Pages/default.aspx Fel arall gall trigolion roi gwybod i ni am unrhyw newid drwy www.caerdydd.gov.uk/newidbudd-daliadau. "

Cofrestriadau geni newydd

Bydd cofrestriadau geni newydd yn cael eu hatal o ddiwedd heddiw yn unol â chanllawiau ar gyfer y DU gyfan gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol. Mae hyn yn cael ei wneud i sicrhau nad yw babanod newydd-anedig yn cael eu hamlygu i'r risgiau presennol sy'n gysylltiedig â mynychu Swyddfeydd Cofrestrfa gyda'u teuluoedd.

Ni fydd ceisiadau am Fudd-dal Plant yn cael eu heffeithio.

Os oes gennych apwyntiad, bydd ein Cofrestrwyr yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

Paratoi cartrefi ar gyfer pobl digartref

Ar hyn o bryd mae timau o weithwyr, gyda chefnogaeth LCB Construction a Mispace, yn gweithio'n galed ledled y ddinas i gael cartrefi cyngor gwag yn barod cyn gynted â phosibl i bobl sy'n profi digartrefedd symud i mewn.

Er bod rhai preswylwyr a thenantiaid wedi mynegi pryderon am y gwaith hwn ar ol y mesurau a'r cyfyngiadau a ddaeth i fewn yn gynharach yr wythnos hon i helpu i atal Coronavirus rhag lledaenu, mae'r Cyngor eisiau sicrhau cymunedau bod y gwaith hwn yn hanfodol a'i fod yn cefnogi pobl mewn angen sylweddol ar y funud hon.

DIWEDDARIAD COVID-19: Cartref Cŵn Caerdydd

Mae Cartref Cŵn Caerdydd yn dal i dderbyn cŵn strae, ond nid yw'r safle ar agor ond i gerddwyr cŵn cofrestredig. Os dewiswch gerdded cŵn i ni, bydd hyn yn cyfrif fel eich cyfle dyddiol i gael ymarfer corff. Rhaid i slotiau amser gael eu trefnu ymlaen llaw drwy ffonio'r cartref, fel bod modd cadw at reolau ymneilltuo cymdeithasol. Byddwch yn cael cerdded y cŵn am hyd at awr.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cofrestru â'r Cartref Cŵn fel gofalwr maeth, mae gennym bellach ddigon o ofalwyr maeth i'n helpu i ofalu am gŵn Caerdydd yn ystod y sefyllfa barhaus â #COVID19.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ail-gartrefi ci'n barhaol, ewch i wefan y Cartref Cŵn am fanylion am yr holl gŵn sy'n aros i gael cartref newydd, a ffoniwch y tîm. Nid oes modd eich cyflwyno i gi ar hyn o bryd ond bydd y tîm yn cadw'ch manylion ac yn cysylltu pan fyddwn yn ail-gychwyn arni.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.cardiffdogshome.co.uk

Diweddariad ar waith priffyrdd a chyfleustodau

Ac eithrio'r gwaith hanfodol sy'n ofynnol ar draphont Southern Way, mae cynlluniau priffyrdd ac ailarwynebu'r Cyngor wedi'u hatal oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus.

Mae'r cynlluniau canlynol wedi'u gohirio tan y rhoddir gwybod fel arall:

- Yr holl waith ailarwynebu ar y priffyrdd a throedffyrdd
- Yr holl waith a wneir gan Griffiths ar Western Avenue, Sloper Road a'r gwaith gwella yn Sblot a Ffordd Lamby (gwelliannau llifogydd arfordirol)
- Yr holl waith ffordd ar Llwyn-y-pia Road
- Cynlluniau Wales & West ar Merthyr Road, yr Eglwys Newydd; Tredelerch a Llanrhymni gan gynnwys Heol Casnewydd.
- Yr holl waith ar gyfer cynllun Plasdwr a gynhelir gan Griffiths ar Heol Llantrisant a Heol Isaf.
- Metro Bank, Ipswich Road

Disgwylir i'r cynlluniau canlynol gael eu cadarnhau yn fuan:

- Gwaith sy'n cael ei wneud gan Calibre ar Heol Hir, Llanisien a Greenway Road a Rhyl Road, Tredelerch
- Gwaith rhagarweiniol gan Knights Brown yn y Sgwâr Canolog.

Cau ffordd Southern Way:

Southern Way, am allan, rhwng Rover Way a'r A48. Bydd gwyriad yn cael ei roi ar waith gydag arwyddion gan ddefnyddio Heol Casnewydd a chyffordd Heol Casnewydd/Southern Way.

Gyda'n Gildd Dros Gaerdydd – Porth Gwirfoddoli Cyngor Caerdydd

Os oes pobl yn y gymuned yn dod at aelodau yn cynnig gwirfoddoli, dylid eu cyfeirio at borth gwirfoddoli Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd. Dyma'r ffordd orau o gynnig help llaw.

Y cyfeiriad ar gyfer y porth yw www.gwirfoddolicaerdydd.co.uk.

Os daw pobl atoch i chwilio am gymorth gan wirfoddolwyr, gofynnwch iddynt ffonio Llinell Gyngor y Cyngor ar 029 2087 1071